**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

3 Mai 2019

Annwyl Nick

## Codi’r cyfyngiad ar swyddi y Sefydliad

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gyfyngiad y sefydliad ar swyddi staff. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth (Craffu ar Gyfrifon 2017-18) ar 8 Hydref 2018, gwnaethom hysbysu'r Pwyllgor fod gan y Comisiwn gyfyngiad cyffredinol o 491 o swyddi ar gyfer y sefydliad. Roeddem wedi ymrwymo i'r cyfyngiad hwn, yn ddidwyll, yn ystod gohebiaeth â'r Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2017.

Dros y 15 mis diwethaf, rydym wedi gallu bodloni'r holl ofynion a osodwyd ar y Comisiwn yn unol â’r cyfyngiad a bennwyd. Rydym wedi llwyddo i gyflawni hyn drwy flaenoriaethu sut rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael a thrwy ailddyrannu 12 swydd bresennol yn llwyddiannus o wasanaethau ar draws y Comisiwn, i gefnogi’r paratoadau ar gyfer Brexit.

Fodd bynnag, yn ein llythyr dyddiedig 20 Tachwedd 2018 i’r Pwyllgor Cyllid, gwnaethom esbonio y byddai’r dull uchod yn helpu i sicrhau 'y gall y Comisiwn barhau i ddarparu'r sgiliau, yr arbenigedd a'r gallu angenrheidiol i gefnogi'r Cynulliad drwy'r heriau penodol a ddaw yn sgil Brexit a Newid Cyfansoddiadol, tra'n parhau i weithio, cyhyd ag sy’n bosibl, o fewn cyfyngiad cyffredinol y sefydliad o 491 o swyddi.’; mewn geiriau eraill, efallai y daw adeg pan fydd angen gweithredu dull gwahanol.

Fel y nodwyd, wrth gyflwyno ein trosolwg o’r gyllideb ar ddechrau cyfnod y Cynulliad hwn, roedd yn amhosibl rhagweld effeithiau ymadael â’r Undeb Ewropeaidd a newid cyfansoddiadol dros y pum mlynedd, na phryd y byddem yn teimlo’r effeithiau hynny.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Rydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw erbyn hyn. Nododd ein hymarferion cynllunio capasiti ym mis Ionawr a mis Chwefror 2019 fwlch sylweddol rhwng y galw a'r capasiti, ac nad oedd bellach yn gynaliadwy parhau i ailddyrannu swyddi presennol heb effeithio’n sylweddol ar y gwasanaethau a ddarperir.

Yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2019, ystyriodd y Comisiwn gynigion i lacio cyfyngiad swyddi y sefydliad o 491 o swyddi, i ddarparu adnoddau ychwanegol, yn bennaf er mwyn cyflawni heriau Brexit. Cydnabu'r Comisiwn y pwysau ac roedd yn gefnogol mewn egwyddor, ond gofynnodd am ragor o fanylion ynghylch nifer y swyddi ychwanegol a ddisgwylir, a sicrwydd y gellid eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol.

Darparwyd gwybodaeth bellach i'r Comisiwn yn ei gyfarfod ar 1 Ebrill.  Gweler y wybodaeth hon yn Atodiad 1. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Comisiwn ar gynnydd i gap y sefydliad o 6 swydd, sef newid o 491 i 497. Nodir y swyddi hyn hefyd yn Atodiad 1.

Rydym wedi ymrwymo i hysbysu'r Comisiwn ynghylch cyfyngiad y sefydliad ac unrhyw newidiadau yn ystod pob un o gyfarfodydd y Comisiwn, a byddwn yn parhau i edrych yn fanwl ar yr opsiynau i ail-flaenoriaethu swyddi mewnol, wrth iddynt ddod yn wag, er mwyn lleihau'r newid cyffredinol yn y sefydliad. .

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i roi sicrwydd i’r Pwyllgor y byddwn yn parhau i fod mor ymroddedig ag erioed i ddarparu sicrwydd trwy waith craffu ac archwilio allanol yn ogystal â'n fframwaith llywodraethu mewnol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol o ran ategu ein hyder ein bod yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, darbodus ac effeithiol wrth ddarparu ein gwasanaethau i’r Cynulliad.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir

Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

# Atodiad 1

**Detholiad o Bapur y Comisiwn 1 Ebrill 2019.**

Bu cynnydd sylweddol ym maint ac amrywiaeth y gwaith mewn perthynas â Brexit ers mis Medi 2018, gyda chynnydd ym maint y ddeddfwriaeth (yn ymwneud â Brexit ac nad yw'n ymwneud â Brexit) rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Er enghraifft, cyflwynwyd mwy o offerynnau statudol ym mis Ionawr/Chwefror 2019 nag yn ystod 2018 gyfan. Yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019, trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol swm digynsail o ddeddfwriaeth: Bil a 40 o offerynnau statudol.

Ar draws Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad mae angen cynyddu hyblygrwydd, sgiliau a gwydnwch i ymateb i'r sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o ran deddfwriaeth, a heriau eraill. Mae trefniadau staffio tymor byr wedi gweithio'n dda ond nid ydynt bellach yn gynaliadwy ac mae bwlch sylweddol rhwng y galw a'r capasiti. Fel y disgrifiwyd yn y papur diweddar i'r Comisiwn, gellir mynd i'r afael â'r galw hwn ar yr amod bod gennym rywfaint o hyblygrwydd i amrywio cyfyngiad cyffredinol presennol y sefydliad o 491, gan sicrhau nad ydym yn mynd y tu hwnt i adnoddau ariannol presennol.

Byddai'r gallu i amrywio'r cyfyngiad a'r cyfrif pennau, ochr yn ochr â'n prosesau presennol ar gyfer adolygu ac ail-ddyrannu swyddi gwag yn ein galluogi i leihau'r effaith barhaol ar y sefydliad, tra'n caniatáu i ni ddiwallu anghenion uniongyrchol. Er mwyn sicrhau na fydd y newidiadau'n mynd yn ormodol, byddem yn bwriadu adrodd ar y niferoedd a bennir ac unrhyw newidiadau i'r Comisiwn ym mhob cyfarfod.

Rydym wedi ystyried yn ofalus a fyddai penodiadau cyfnod penodol neu dros dro yn gweithio. Fodd bynnag, ni allwn osod graddfeydd amser diffiniedig yn rhwydd ar gyfer y swyddi y mae angen i ni eu llenwi; mae angen i ni fod yn gystadleuol yn y farchnad yn erbyn cyflogwyr eraill sy'n cynnig contractau parhaol ac yn olaf, o ystyried lefelau trosiant y sefydliad, credwn y gallwn leihau effaith gyffredinol y cyfyngiad a bennir. Felly, bydd angen penodiadau parhaol.

Mae angen inni lenwi 6 swydd ychwanegol cyn gynted ag y bo modd, sef y rhai a ganlyn:

- 2 Swyddog Materion Ewropeaidd/Rhyngwladol, wedi'u lleoli yn y Gwasanaeth Ymchwil, ond byddant yn cefnogi gweithgareddau ar draws Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad. Yn y tymor byr a chanolig, bydd y swyddogion hyn yn cefnogi gwaith

Brexit. Yn y tymor hwy, mae'r swyddi hyn yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth i ddatblygu arbenigedd ar draws ystod o feysydd polisi, a fydd yn galluogi gwaith monitro effeithiol ar drefniadau yn dilyn Brexit, megis fframweithiau cyffredin, cytundebau masnach, a chytundebau rhynglywodraethol.

- 1 Dirprwy Glerc ar gyfer y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, i gefnogi’r cynnydd yn y ddeddfwriaeth oherwydd Brexit, yn ogystal â darparu gwydnwch i'r tîm hwn yn y tymor hwy. Byddai hyn yn galluogi gwaith cynllunio olyniaeth; mae gennym Glerc profiadol ac Ail Glerc y mae staff yn dibynnu arnynt i gael cyngor ac arweiniad ar graffu deddfwriaethol.

- 1 Clerc/Arweinydd Tîm ar gyfer Deddfwriaeth, wedi'i leoli yng Ngwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau, ond bydd yn gweithio ar draws y Gyfarwyddiaeth. Mae llawer o brosiectau sydd angen adnoddau pwrpasol ar lefel uwch. Bydd hyn yn rhoi hwb pellach i'n capasiti a'n gallu trwy feddu ar arbenigedd a dyfnder gwybodaeth ar draws y broses ddeddfwriaethol gyfan. Byddem yn cylchdroi clercod drwy'r rôl hon, gan gynyddu sgiliau a gwydnwch ar draws y Gyfarwyddiaeth. Dyma fersiwn wedi'i hail-lunio o swydd sefydledig sydd wedi bod yn wag ers i ddeiliad y swydd symud i rôl dros dro. Bydd llenwi'r swydd wag hon yn barhaol yn cynyddu ein cyfrif pennau.

- 1 Cyfieithydd Cyfreithiol arbenigol ac 1 Cyfieithydd/Golygydd aml-sgil. Wrth i’r maint o waith a wneir gan y Cynulliad gynyddu, felly hefyd y mae’r galw ar y gwasanaeth cyfieithu a chofnodi. Mae hyn yn cynnwys cyfieithu testun, cofnodi, a chyfieithu ar y pryd. Gellir cyflawni rhywfaint o’r galw drwy gontractau allanol, ond mae angen adnoddau arbenigol arnom yn fewnol, yn enwedig ar gyfer deddfwriaeth.